



Cyflwyniad i'r DofE – Deilliannau Dysgu

Nod y modiwl – Darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i fod yn Arweinydd DofE a rhedeg rhaglenni DofE gyda'ch grŵp. Mae'n rhaid i bob cynrychiolydd gwblhau modiwl e-gyflwyniad a chynhyrchu llythyr cwblhau cyn mynd ar y cwrs.

Deilliannau dysgu

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd cynrychiolwyr yn gallu:

Deall cenhadaeth, cysyniad, egwyddorion arweiniol a strwythur cyflawni'r DofE a gwerthfawrogi'r buddiannau i bobl ifanc.

- Deall cenhadaeth, cysyniad ac egwyddorion arweiniol y DofE a sut maen nhw'n ymwneud yn uniongyrchol a dylunio a chyflawni rhaglenni'r DofE.
- Deall lle mae rhaglenni'r DofE yn cael eu cyflawni a lle gallen nhw gael eu cyflawni.
- Deall y manteision i gyfranogwyr sy'n gwneud rhaglenni'r DofE.
- Bod yn gyfarwydd a strwythur cyflawni'r DofE a'r derminoleg briodol.

Deall y swyddogaethau gwahanol sydd eu hangen i gefnogi unigolyn ifanc sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r DofE a chydabod eu cyfrifoldebau i'r cyfranogwyr a'u Sefydliad Trwyddedig/ AAP.

- Nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau oedolion yn y DofE.
- Cael mynediad at bolisiau perthnasol y DofE a'r Sefydliad Trwyddedig /AAP e.e. diogelu, amddiffyn plant a chod ymddygiad diogelu'r DofE.

Deall rhaglenni'r DofE (lefelau, adrannau, graddfeydd amser, manteision adrannol) a datblygu rhaglen DofE gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, i'w galluogi i gefnogi pobl ifanc drwy eu rhaglen DofE.

- Egluro lefelau a rhannau gwahanol rhaglenni'r DofE. Bod yn gyfarwydd ag adnoddau, a gwybod lle i gael mynediad atyn nhw, er mwyn cynorthwyo pobl ifanc drwy eu rhaglenni DofE.
- Gallu egluro manteision pob rhan o'u rhaglen DofE i bobl ifanc.
- Gwerthfawrogi pa mor bwysig yw hi i bobl ifanc berchenogi eu rhaglen.

Deall y broses pan fydd unigolyn ifanc yn cwblhau rhaglen DofE ac ystyried y rhwystrau posibl o ran cwblhau a symud ymlaen.

- Deall sut mae cyfranogwr yn cwblhau eu rhaglen DofE.
- Deall proses gymeradwyo'r Gwobrau.
- Rhestru'r rhwystrau posibl a rhai atebion er mwyn eu cwblhau.
- Egluro'r cyfleoedd i bobl ifanc allu symud ymlaen i'r lefel nesaf.

Darparu'r wybodaeth i'r Arweinydd DofE i'w alluogi i gefnogi pobl ifanc, datblygu Arweinwyr newydd a nodi'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'w helpu nhw i gyflawni hyn.

- Annog deiliaid Gwobr DofE i barhau i ymwneud a'r DofE neu eu gweithgareddau DofE.
- Cefnogi pobl ifanc i wneud yn fawr o'r buddiannau a gafwyd drwy gymryd rhan yn rhaglen y DofE.
- Nodi a defnyddio adnoddau perthnasol y DofE ac adnoddau cymunedol ynghyd a rhwydweithiau lleol eraill.
- Deall sut mae eDofE yn cefnogi cyflawni gwaith y DofE.
- Egluro Fframwaith Hyfforddiant Fodiwlaid y DofE a'r dewisiadau ar gyfer rhagor o ddatblygiad personol, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw.

Rheoli Grŵp DofE – Deilliannau Dysgu

Nod y modiwl

Datblygu'r sgiliau sy'n hanfodol i reoli grŵp DofE. Rhagofynion y DofE cyn cymryd y modiwl:

- e-gyflwyniad y DofE (modiwl ar-lein)
- Cyflwyniad i'r modiwl DofE

Deilliannau dysgu	Erbyn diwedd y sesiwn, bydd cynrychiolwyr yn gallu:
M1 – Datblygu ystod o sgiliau trefnu, gan alluogi'r Arweinydd i reoli grŵp DofE yn llwyddiannus.	Rhestru'r sgiliau trefnu allweddol sydd eu hangen ar Arweinydd DofE.
M2 – Deall model ar gyfer cynllunio gweithgareddau neu ddigwyddiadau.	Dangos eich bod yn gyfarwydd a model cynllunio.
M3 – Gwerthfawrogi manteision gwerthuso.	Nodi diben gwerthusiad a chymryd rhan yng ngwaith gwerthuso gweithgaredd neu ddigwyddiad DofE.
M4 – Datblygu amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu	Arddangos amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu e.e. gwrando, trafod, rhoi a derbyn adborth a sgiliau cyflwyno.
M5 – Deall y broses cadw cofnodion sy'n briodol i gynnal grŵp DofE.	Cael gwybodaeth ymarferol sylfaenol o eDofE.
M6 – Deall systemau a gweithdrefnau perthnasol y Sefydliad Trwyddedig, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Gwybodaeth am iechyd a diogelwch• Gweithdrefnau perthnasol ynghylch diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol• Yswiriant	Rhestru'r rheoliadau cyfreithiol ac iechyd a diogelwch perthnasol sy'n gymwys i grŵp DofE.
M7 – Deall swyddogaeth a phwysigrwydd asesu risg a datblygu asesiadau risg.	Nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig a gweithgaredd a chwblhau asesiad risg ar gyfer gweithgaredd DofE priodol.
M8 – Dechrau archwilio'r sgiliau a'r strategaethau sydd eu hangen i weithio'n llwyddiannus gyda phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol.	Deall sgiliau priodol sydd eu hangen wrth weithio gyda'r bobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol wrth wneud eu rhaglen DofE.



Sgiliau gwaith tîm/ arweinyddiaeth – Deilliannau Dysgu

Nod y modiwl - Rhoi lefel sylfaenol o ddealltwriaeth i unigolion ynghylch gweithio mewn timau ac arweinyddiaeth, y gallen nhw eu cymhwyso wrth weithio yn eu grŵp DofE.

Deilliannau dysgu	Erbyn diwedd y sesiwn, bydd cynrychiolwyr yn gallu:
T1 – Deall y gwahaniaeth rhwng tîm a grp a rheolwr ac Arweinydd.	Egluro'n gryno beth yw'r gwahaniaeth rhwng tîm a grŵp a rheolwr ac arweinydd.
T2 – Gwerthfawrogi manteision ac anfanteision gweithio mewn tîm	Rhestru manteision ac anfanteision gweithio mewn tîm.
T3 – Deall model o ddeinameg tîm, i gynnwys timau sy'n cyfeirio eu hunain.	Rhestru'r swyddogaethau gwahanol y mae gwahanol bobl yn ymgymryd a nhw mewn timau, a lle mae gan dimau sy'n arwain eu hunain ran i'w chwarae.
T4 – Gallu adnabod rhai camau o ddatblygu tîm.	Rhestru rhai o gamau datblygu tîm.
T5 – Gallu gwerthfawrogi arddulliau arwain.	Restru sawl arddull arwain gwahanol.
T6 – Nodi amrywiaeth o sgiliau gwaith tîm.	Dangos amrywiaeth o waith tim mewn sefyllfa tîm/ grŵp.



Tystysgrif mewn Arweinyddiaeth DofE Ymarferol – Deilliannau Dysgu

Nod y modiwl - Rhoi'r sgiliau ymarferol y bydd unigolion eu hangen i weithio mewn grŵp DofE.

Deilliannau dysgu	Erbyn diwedd y sesiwn, bydd cynrychiolwyr yn gallu:
P1 – Dangos ymrwymiad rheolaidd i'r DofE drwy waith arwain ymarferol.	Gweithredu fel Arweinydd/cynorthwydd mewn cyfarfodydd grŵp DofE. DofE rheolaidd.
P2 – Datblygu amrywiaeth o sgiliau arwain.	Dangos sgiliau arwain ar gyfer gweithgaredd benodol.
P3 – Cynllunio, trefnu a chychwyn rhaglen o weithgarwch DofE.	Cynllunio, trefnu a chychwyn rhaglen o weithgarwch DofE.
P4 – Deall a chymhwyso rheoliadau iechyd a diogelwch priodol wrth weithio ar weithgareddau yn y grŵp.	Cymhwyso'r rheoliadau cyfreithiol ac iechyd a diogelwch perthnasol, sy'n gymwys i rôl arweinyddiaeth ymarferol.